

Crynodeb: Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol – Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Rydym yn awyddus i gael eich barn am newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Rydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n nodi manylion y cynigion ac yn gofyn cwestiynau cysylltiedig.

Pennod 1 – Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

Fel rhan o'r **Cytundeb Cydweithio** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae yna ymrwymiad clir i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal'.

Ar hyn o bryd, mae dros 80% o gartrefi gofal i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan y sector preifat. Caiff tua hanner yr asiantaethau maethu eu darparu gan y sectorau preifat, annibynnol neu wirfoddol.

Ein nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal plant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario'n gyfan gwbl ar wasanaethau i sicrhau profiadau a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc; gan helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau a hybu datblygiad proffesiynol pellach ar gyfer staff.

Rydym yn cynnig gwneud deddfwriaeth sylfaenol sy'n caniatáu i ddarparwyr 'nid-er-elw' yn unig gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu. Byddai hyn yn golygu mai ddarparwyr 'nid-er-elw' yn unig fydd â chaniatâd i weithredu yng Nghymru.

Pam rydym yn ymgynghori?

Mae'r ymrwymiad yn rhan o'n gwaith ehangach i ailgynllunio sut rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc, i wneud y gorau i'n pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu cynigion cysylltiedig a all gefnogi cyflawni'r ymrwymiad.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn gwahodd eich barn ar ein cynigion deddfwriaethol, gan gynnwys:

- a fydd caniatáu i ddarparwyr 'nid-er-elw' yn unig gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn cefnogi cyflawni'r ymrwymiad
- beth y dylid ei gynnwys yn y diffiniad o 'nid-er-elw'
- amserlen ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad, a'r cyfnod pontio i'r trefniadau newydd
- pa gamau arall y gellid eu cymryd i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru
- yr effeithiau, manteision, costau a'r risgiau sy'n debygol
- unrhyw faterion cysylltiedig.

Sut galla i roi fy marn i Lywodraeth Cymru?

Gallwch gyflwyno eich ymateb **erbyn hanner nos ar 7 Tachwedd 2022**, yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen ar-lein, **neu**
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost at: **YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru** **neu** ei phostio i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Darllenwch y ddogfen ymgynghori cyn ystyried eich ymateb. Mae'r ddogfen ar gael yn: **lyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig**